

Cyngor Tref Criccieth

Cofnodion cyhoeddus cyfarfod y Cyngor Tref a gynhaliwyd am 7.00 o'r gloch, nos Lun **12 Chwefror 2018** yn Siambr y Cyngor, Stryd Fawr, Criccieth.

Gweddi agoriadol

1-02/18: Presennol

Cadeirydd ; Cyng Elizabeth George;

Cyng. Robert Cadwalader, Cyng William A Evans; Cyng. Dr E Tudor Jones; Cyng Henry Jones; Cyng Eirwyn Williams; Cyng. Phil Jones; Cyng Dafydd Lloyd; Cyng Wayne Roberts; Cyng. Robert T Price; Cyng William E Evans

Clerc – Dr Catrin Jones.

2-02/18 Ymddiheuriadau:

Cyng Sian Williams; Cyng Elizabeth Reagan.

Roedd y Cyngor yn dymuno'n dda i'r Cynghorydd Sian Williams ar gyfer gwellhad buan.

3-02/18: Datgan diddordeb

7/02/18 d Cynghorydd Eirwyn Williams ar gyfer eitem C16/0654/35/LL Cais i godi 10 uned fforddiadwy: Tir gwag Waen Helyg, Criccieth

4-02/18 Cadarnhau cofnodion mis Ionawr

Cadarnhawyd a llofnodwyd y cofnodion yn unol â'r gyfraith

5-02/18: Eitemau brys ac er gwybodaeth (trwy law y Cadeirydd/Clerc)

- a. Pared Dewi Sant – Pwllheli – ebost 7 Chwefror 2018
Nodwyd bod cais am nawdd wedi ei dderbyn a oedd yn rhy hwyr ar gyfer y cyfarfod a bydd ar agenda Mis Mawrth.–

6-02/18 : Gohebiaeth

- a. Fforwm Mynediad Lleol Arfon a Dwyfor – ebost 15 Ionawr 2018
Roedd gwahoddiad i'r Cyngor wneud cais i fod yn aelod o'r Fforwm sy'n cynghori Cyngor Gwynedd, Cyfoeth Naturiol Cymru a chyrrff eraill perthnasol o ran gwella llwybrau a mynediad cyhoeddus i diroedd yn y sir gyda'r nôd o hyrwyddo gweithgareddau awyr agored. Mae'r Fforwm yn cwrdd yn rheolaidd ac mae'n bwysig fod aelodau o'r Fforwm Mynediad Lleol yn mynychu pob cyfarfod.

Penderfyniad: Dim cynnig aelod ar gyfer y Fforwm.

- b. Un Llais Cymru –Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol– ebst 17 Ionawr 2018
Roedd canllawiau cyfreithiol diweddarach am Rheoliadau Diogelu Data wedi eu cylchredeg. Nodwyd bod rhaid cydymffurfio gyda nhw erbyn 25 Mai 2018. Roedd NALC wedi comisiynu cwmni o gyfreithwyr i baratoi pecyn gwaith i'w ddefnyddio gan gynghorau wrth iddynt baratoi ar gyfer y dyddiad gweithredu. Hefyd byddai NALC yn cynghori Un Llais Cymru ar sut orau i fanteisio ar rôl Swyddog Diogelu Data pan na ellir darparu'r rôl honno'n fewnol. Bydd canllawiau ar gael ar hyn maes o law.

Penderfyniad: Derbyn y wybodaeth ac aros am y canllawiau. Nodwyd y byddai modd ystyried cyd-weithio gyda Chynghorau cyfagos.

- c. Ymgynghoriad Cyfraith Cynllunio Cymru – ebst 14 Rhagfyr 2017 (wedi ei gylchredeg yn barod)

Derbyniwyd y wybodaeth.

Penderfyniad: Nodi'r argymhellion.

- d. Arolwg o'r Trefniadau Etholiadol ar gyfer Sir Gwynedd – Cynigion drafft – ebst a llythyr dyddiedig 23 Ionawr 2018

Roedd y Comisiwn yn gwahodd sylwadau ac unrhyw dystiolaeth newydd cyn iddynt baratoi eu Cynigion Terfynol – cyfnod ymgynghori rhwng 30 Ionawr 2018 a 23 Ebrill 2018. Nodwyd bod y wybodaeth am yr arolwg wedi ei rhoi ar safle We y Cyngor.

Er nad yw y Comisiwn yn cynnig newid i drefniant daearyddol Ward Criccieth, roedd yn cynnig:

“Y dylid ail enwi Criccieth yn “Cricieth”, gan mai dyma'r enw cydnabyddedig yn y Rhestr o Enwau Lleoedd. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn argymhell, pan fydd yr enwau Cymraeg a Saesneg yn wahanol o un neu ddwy lythyren yn unig, argymhellir defnyddio ffurf unigol, gan ffafrio'r ffurf Gymraeg.”

Penderfyniad: Yn dilyn pleidlais roedd y mwyafrif o'r farn y dylid cadw enw hanesyddol, cydnabyddedig yr etholaeth yn Criccieth ac mae hwn oedd y fersiwn Gymraeg cywir. Byddai barn y Cyngor yn cael ei rhoi ar safle We'r Cyngor yn gwahodd sylwadau gan drigolion i'w danfon at y Clerc mewn da bryd cyn cyfarfod mis Ebrill o'r Cyngor.

- e. Panel Adolygu Annibynnol – Digwyddiad ymgysylltu – Caernarfon – ebost 26 Ionawr 2018

Derbyniwyd gwahoddiad i fynychu digwyddiad ymgysylltu i Aelodau'r Cyngor, clerod a rhanddeiliad allweddol – dydd Mawrth Adeilad Cyngor Tref Caernarfon 6 Mawrth 12 tan 15.00

Penderfyniad: Y Cyng Elizabeth George a'r Clerc i fynychu ar ran y Cyngor Tref.

- f. Cynllun Llesiant Gwynedd a Môn – Holiadur Ymgynghoriad Cyhoeddus
Derbyniwyd gwahoddiad i rhoi sylwadau ar y Cynllun Llesiant Drafft sydd weid ei baratoi – cyfnod ymgynghori tan 30 Fawrth.

Penderfyniad: Ystyried ymateb yng nghyfarfod mis Mawrth a gwahodd Grŵp Llywio Cynllun Cymunedol Criccieth i baratoi drafft ymateb.

- g. Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol: Fframwaith Cenedlaethau'r Dyfodol – ebost 30/1/2018
Nodi bod Fframwaith Cenedlaethau'r Dyfodol wedi cael ei ddatblygu ar gyfer prosiectau i gynorthwyo'r sector cyhoeddus ac eraill i gyflawni prosiectau a seilwaith sy'n addas ar gyfer y dyfodol.

Penderfyniad: Roedd y fframwaith wedi ei ystyried gan Grŵp Llywio Cynllun Cymunedol Criccieth a oedd yn argymhell ei ddefnyddio ar gyfer datblygiad prosiectau'r Cyngor Tref mewn dull integredig a chydweithredol. Roedd y Cyngor Tref yn cytuno mabwysiadu'r fframwaith.

- h. Ail Fodelu Gwasanaeth Ieuencid Gwynedd – ebost 31/1/2018

Derbyniwyd lythyr gan Rheolwr Gwasanaethau Ieuenctid Cyngor Gwynedd yn nodi bod y Gwasanaeth Ieuenctid bellach yn ystyried ail-fodelu'r gwasanaeth ac yn ystyried symud i ffwrdd o redeg Clybiau Ieuenctid. Byddai penderfyniad yn cael ei wneud gan Gabinet Cyngor Gwynedd ar 13 Fawrth ac roedd angen sylwadau erbyn 9 Mawrth. Roedd Grŵp Llywio Cynllun Cymunedol Criccieth yn argymhell y dylid cael barn yr unigolyn sydd yn rhedeg y clwb ar hyn o bryd ar y ffordd priodol ymlaen.

Penderfyniad: Gweithredu ar hyn a dirprwyo'r cyfrfoldeb am ymateb ar ran y Cyngor i Grŵp Llywio Cynllun Cymunedol Criccieth.

- i. Cymorth Cynllunio Cymru – Hyfforddiant ar Gynllunio am ddim ar 20 Chwefror 2018 – Adeilad Cyngor Tref Caernarfon – ebost 30/1/18
Gwahoddiad i fynychu gweithdy hyfforddiant am ddim ar gyfer Cyngorwyr Cymuned a Thref rhwng 6-9.15 yr hwyr.

Penderfyniad: Nid oedd y Cyngor am ddanfod aelod i'r hyfforddiant.

- j. Corff gwarchod y sector cyhoeddus yn ceisio adborth gan y cyhoedd a rhanddeiliaid allweddol ar gôd diwygiedig i archwilwyr – ebost 31/1/18
Nodi bod y wybodaeth wedi ei gylchredeg – mae'r ymghynghoriad ar agor tan 26 Mawrth 2018.

Penderfyniad: Ystyried yng nghyfarfod mis Mawrth a gofyn i'r Grŵp Cyllid edrych ar y côd.

- k. Un Llais Cymru – Paratoi'r Gyllideb 2018/19 – ebost 31/1/18
Derbyniwyd ebost gan Un Llais Cymru ar gyfer cost debygol talu lwfansau i gynghorwyr sydd wedi ei nodi yn Adroddiad Blynyddol drafft Panel Annibynnol Cymru ar gyfer 2018/19. Bydd yr adroddiad terfynol yn cael ei gyhoeddi diwedd Chwefror.

Penderfyniad: nodi'r wybodaeth a bod y Cyngor, drwy yr Is-Grŵp Cyllid eisoes wedi cynnwys swm yn y Gyllideb drafft ar gyfer 2018/19

- l. Cyfoeth Naturiol Cymru - Arolwg Datganiadau Ardal – ebost 31/1/18
Nodi'r ebost a bod y Clerc wedi cwblhau yr arolwg gan fod y dyddiad cau ar 9fed Chwefror. Roedd yr holiadur yn holi am sut i'n hysbysu ynghylch yr hyn sy'n digwydd yn y broses Datganiadau Ardal ac hefyd y meysydd o ddiddordeb i'r Cyngor.

Penderfyniad: Derbyn y wybodaeth a diolch i'r Clerc am ymateb.

- m. Adroddiad Grwp Cyfeiriol Budd Ddeiliaid Betsi Cadwaladr - 22ain Ionawr - ebost
1/2/18

Roedd yr adroddiad wedi ei gylchredeg.

Penderfyniad: Derbyn y wybodaeth

- n. Cadw – pass newydd – llythyr 4/1/2018

Derbyniwyd llythyr gan Cadw am y Pass Cadw Cofeb newydd wedi ei gylchredeg gan nodi y bydd angen danfon cais ar lein.

Penderfyniad: Derbyn y wybodaeth a oedd wedi ei nodi yng nghyfarfod mis Ionawr.

- o. Cynhadledd Rheilffordd Arfordir y Cambrian – gwahoddiad i holi cwestiynau –
15/1/2018

Gwahoddiad i nodi'r materion hynny yr hoffai'r Cyngor Cymuned iddynt gael eu trafod yn y cyfarfod nesaf, un ai gan Trenau Arriva Cymru, Network Rail neu'r Pwyllgor yn gyffredinol.

Derbyniodd y Cyngor ymatebion i gwestiynau blaenorol gan y Cyngor Tref:

“A yw Trenau Arriva Cymru yn medru sicrhau eu bod yn cynnig gwasanaeth dwyieithog?” – dywedodd y swyddog fod y cwmni yn ateb gohebiaeth yn ddwyieithog ond roeddent yn cael trafferth gyda gwasanaeth dwyieithog ar y trenau oherwydd diffyg ariannu. Hyderir y bydd cwmni llwyddiannus y fashnachfaint newydd yn gallu cynnig gwasanaeth cyhoeddus ddwyieithog yn y gorsafoedd ac ar y trenau.

“A yw Arriva am ystyried cael un trêen cyflym y dydd nôl ac ymlaen o'r Gogledd i'r De?” – nid oedd hyn am ddigwydd ac mi fyddai'n fater i'r masnachfaint newydd i'w ystyried.

“A yw Arriva am ystyried cynnig gwasanaeth arlwygo ar y trêen rhwng Pwllheli a Machynlleth?” – addawodd y swyddog y byddai'n edrych i fewn i'r uchod ac y byddai'n fwy na bodlon trafod ymhellach hefo unrhyw un a fyddai'n barod i gynnig y gwasanaeth.

“Nid oes gan y stesions trêen rhwng Pwllheli a Machynlleth beiriannau tocynnau – ac mae'n anghyfleus nad oes modd printio tocynnau wedi eu prynu o'r We neu medru eu lawrlwytho ar app. A oes modd datrys hyn?” – Dywedodd y swyddog nad oedd

bwriad i osod peiriannau oherwydd diffyg lle yn y gorsafoedd. Fodd bynnag, bydd yn cyflwyno technoleg newydd a fyddai ar gael i bawb a bod yn rhaid ystyried pob ffurf i werthu tocynnau gan ystyried hefyd cynnal a chadw a dibynadwyedd”

“A oes modd cael arwyddion i’r stesion drên yng Nghriccieth?” Addawodd y swyddog i ystyried yr uchod a dywedodd swyddog Network Rail y byddent yn cefnogi os y gallent. Os oedd y cwestiwn yn cyfeirio at arwyddion lliw brown, byddai’n rhaid cyfeirio’r mater i’r Gwasanaeth Trafnidiaeth a Gofal Stryd, Cyngor Gwynedd”

Penderfyniad: i ofyn am ddiweddariad ar yr arwyddion ar gyfer stesion Criccieth

- p. Llythyr gan y Gweinidog Diwylliant, Twristiaeth a Chwaraeon – baneri Castell Criccieth – 22/1/2018

Derbyniwyd llythyr gan y Gweinidog mewn ymateb i ebost y Cyng Robert Cadwalader ynglŷn â baneri yng Nghastell Criccieth. Nodwyd bod y baneri wedi cael eu difrodi oherwydd tywydd garw a bod dwy faner newydd wedi cael eu gosod ar y safle mewn parodrwydd ar gyfer dydd Gŵyl Dewi, pan y byddant yn cael eu codi eto. Roedd rhaid aros i’r tywydd wella er mwyn iddiynt gael eu tynnu i lawr yn saff.

Penderfyniad: derbyn y llythyr a diolch i’r Cyng R Cadwalader am godi y mater.

- q. Llythyr gan y cyn archwilydd mewnol – 1/1/2018

Derbyniwyd llythyr gan y cyn archwilydd mewnol, Mr JD Roberts. Roedd yn diolch i’r Cyngor am ei gefnogaeth ac i’r Clerc am y cymorth a’r cydweithrediad.

Penderfyniad: Ysgrifennu gair o ddiolch i Mr Roberts am ei wasanaeth dros gyfnod o flynyddoedd maith a dymuno’n dda iddo ar gyfer y dyfodol.

- r. Llythyr gan Gŵyl Cerdd Dant Blaenau Ffestiniog a’r Fro 2018 – 17/1/2018

Llythyr cais i ofyn am gymorth ariannol er mwyn galluogi’r Wyl i gyrraedd ei targed.

Penderfyniad: Dim cyfraniad.

- s. Mynwent Newydd Llanystumdwy – llythyr diolch – 23/1/2018

Derbyniwyd lythyr yn diolch i'r Cyngor Tref am y cymorth ariannol.

- t. Neuadd Goffa Criccieth – llythyr diolch – 24/1/2018

Derbyniwyd lythyr yn diolch i'r Cyngor Tref am y cymorth ariannol gan nodi hefyd y bwriad gan y Neuadd Goffa i wneud cais am grant o £10K i CADW ar gyfer cyfrannu at y gwaith o adnewyddu ffenstri'r adeilad.

7-02/18: Ceisiadau Cynllunio

- a. C18/0052/35/LL – Cais i godi estyniad i gynnwys balcony cyntaf ar flaen yr eiddol ynghyd â newidadau mewnol – 8 Gwaun Ganol, Criccieth, LL52 OTB

Penderfyniad: Dim gwrthwynebiad

- b. C18/0069/35/CT – Hysbysiad Ardal Cadwraeth ar gyfer torri coed – Pines Care Home, Mona Terrace. Criccieth LL52 ODE

Penderfyniad: Danfon sylwadau - dim gwrthwynebiad os bydd mwy o goed yn cael eu plannu yn lle y coed sy'n cael eu torri lawr.

- c. Apêl o dan Adran 78(i) Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990: C17/0483/35/CR – APPQ/6810/E/18/3194399 - Amnewid nwyddau dwr glaw presennol sydd yn gymysg o haearn bwrw a plastig, gyd rhai plastig 'cast iron style' – Ty Criccieth, Porthmadog Road, Criccieth, LL52 OHQ

Penderfyniad: Dim sylwadau pellach

Y cais canlynol wedi ei dderbyn ers cyhoeddi'r agenda ac angen sylw erbyn 21/2/2018:

- d. C16/0564/35/LL Cais i 10 uned fforddiadwy: Tir gwag Waen Helyg, Criccieth

Penderfyniad: Dim gwrthwynebiad.

Ni wnaeth y Cynghorydd Eirwyn Williams gymeryd rhan yn y trafodaethau na'r penderfyniad.

8-02/18 Diweddariad ar y sefyllfa ariannol

Roedd taenlen gwariant fyny at Rhagfyr 2017 wedi ei ddsbarthu, a oedd yn dangos gwariant o £34,450.84 yn erbyn cyllideb o £45,000 - Heb gyfrif y TAW, roedd £13,242.23 ar ôl.

Amcangyfrif y byddai tua £45,746.42 o wariant erbyn diwedd y flwyddyn ariannol (yn cynnwys TAW – a byddai'r Cyngor yn cael ad-daliad o hwn).

Roedd yna fwy o wariant yn y cyfraniadau oherwydd y Cynllun Cymunedol a'r gwariant ar y cysgodfannau eleni - llai o wariant ar Manion/Arall a dim costau trwsio stepiau.

Nodwyd nad oedd y praesept sy'n cael ei osod yn ddigonol ar gyfer y costau bellach ac nad oedd hyn yn gynladwy yn y tymor hir. Erbyn hyn roedd yn rhaid gwario o'r arian wrth gefn er mwyn ariannu y costau ychwanegol ee gwariant ar y toiledau cyhoeddus, torri gwair, ac efallai lwfansau cynghorwyr os bydd yn dod i rym yn 2018/19 ar sail adroddiad cenedlaethol a fyddai'n effeithio pob Cyngor Tref/Cymuned . Roedd cyllideb eleni wedi tynnu ar £10,000 o'r arian wrth gefn. Roedd cynlluniau yn cael eu paratoi ar gyfer gwariant yr arian wrth gefn yn sgîl y Cynllun Cymunedol.

Nodwyd y £10,000 arian Loteri Cenedlaethol ar gyfer prosiect Cofio Cyfraniad Criccieth –ac y byddai rhan fwyaf o'r gwariant yn dod yn y flwyddyn ariannol nesaf, sef 2018/19.

Penderfyniad: Derbyn y wybodaeth

9-02/18 Prosiect Cofio Cyfraniad Criccieth – Cofnodion cyfarfod Grŵp Llywio 23 Ionawr 2018

Nodwyd bod y gwaith yn mynd yn ei flaen yn dda a bod opsiynau ar gyfer gwaith gorffenedig y prosiect yn cael eu trafod gyda'r Neuadd Goffa ar 13 Chwefror.

Tynnwyd sylw at y Diwrnod Agored i hel atgofion yn Ysgol Trefertnyr prynhawn Mercher 7 Mawrth. .

Penderfyniad: derbyn y cofnodion a nodi'r Diwrnod Agored.

10-02 /18 Cynllun Cymunedol Criccieth – adroddiad gan y Grŵp Llywio o gyfarfod 5 Chwefror 2018

Roedd nifer o argymhellion drafft er gwybodaeth a byddai cyfarfod arall o'r Grŵp Llywio cyn cyfarfod nesaf o'r Cyngor.

Penderfyniad: derbyn y cofnodion.

11-02/18 Dyfodol Adeilad Cyngor Tref Criccieth a'r Llyfrgell.

Cafwyd cyfarfod gyda'r cyfreithiwr ar 23 Ionawr – y llythyr i Gyngor Gwynedd wedi ei gylchredeg er gwybodaeth. Aros am ymateb.

Penderfyniad: Derbyn y wybodaeth.

12-02/17 Torri gwair yn y dref

Roedd penderfyniad yn y cyfarfod diwethaf i glustnodi £5k ychwanegol yn y gyllideb ar gyfer toriadau ychwanegol yn 2018/19 – mae angen rhoi gwybod i Gyngor Gwynedd beth yw union ddymuniad y Cyngor erbyn diwedd Chwefror. Roedd cwôt wedi ei dderbyn gan gontractwr ar gyfer yr holl dorri gwair – nid oedd y Cyngor wedi gofyn am hwn.

Penderfyniad: .i dderbyn awgrym Cyngor Gwynedd am y cynllun i dorri a chasglu gwair ganddynt yn 2018/19 gan nodi y byddai'r Cyngor Tref yn talu iddynt y £5k ar gyfer y gwaith ychwanegol hyn.

13-02/18: Parcio yng Nghriccieth

Mynegwyd cosyryn gan y Cyng Wayne Roberts am y cam-barcio ger Dylan's er gwaetha'r llinellau dwbl melyn ger Dylan's.

Penderfyniad: Trefnu cyfarfod safle gyda swyddog yr Adran Briffyrdd i drafod posibiladau ar gyfer gwelliant.

14-02/18 Torri Coed yng Nghriccieth

Nodi bod y Cyng Eirwyn Williams wedi cysylltu gyda Chyngor Gwynedd yn mynegu pryder y Cyngor Tref.

Penderfyniad: Diolch i'r Cyng Eirwyn Williams.

15-02/18 Meinciau Tref Criccieth

Nodwyd bod Grŵp Llywio Cynllun Cymunedol Criccieth yn dymuno sefydlu Grŵp Tasg ar gyfer gwella arwyddion/byrddau gwybodaeth yn y dref ac ail-osod meniciau ar y Prom. Roedd y Clerc wedi cysylltu dwy waith gyda Pennaeth Adran briodol Cyngor Gwynedd i ofyn am ganiatâd ar gyfer gosod meniciau ar y prom a chyfarwyddyd o rhan cwmniau priodol i wneud y gwaith. Nid oedd wedi derbyn ymateb. Roedd y Grŵp Llywio yn awgrymu cysylltu gyda Phrif Weithredwr Cyngor Gwynedd oherwydd nad oedd y Pennaeth Adran wedi ymateb yn amserol yn unol â phrotocol ymateb Cyngor Gwynedd. Nodwyd bod y Cyng Robert Cadwalader am sicrhau amcan bris gan dau gwmni.

Penderfyniad: Y dylai'r Clerc ysgrifennu at Brif Weithredwr Cyngor Gwynedd.

16-02/18 Llwybrau Cyhoeddus

Dim i'w adrodd.

17-02/18: Derbyniadau

18-02/18: Taliadau

• Cyllid y Wlad (PAYE) Ionawr	£126.60	(siec 101212)
• Cyflog y Clerc (Ionawr)	£506.69	(siec 101213)
• Neuadd Goffa Criccieth£5000.00	(siec 101214)
• Mynwent Newydd Llanystumdwy£300.00	(siec 101215)
• Mr J.D Roberts – Tâl Archwiliad Mewnol 2016-17£60.00	(siec 101216)
• R.J. Electrics – Goleuadau Nadolig£360.00	(siec 101217)
• Dream Internet Solutions Ltd£25.00	(siec 101218)

Rhoddyd ganiatad i'r clerch i dalu'r biliau.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.40 y.h.

Cynhelir cyfarfod nesaf y Cyngor Tref ar nos **Lun 12 Mawrth 2018**.

****Bydd y rhaglen yma yn cau 3 Mawrth 2018****

